# CYNGOR LLYFRAU CYMRU
# BOOKS COUNCIL of WALES

**Castell Brychan, ABERYSTWYTH, Ceredigion SY23 2JB**
T 01970 624151 F 01970 625385 e castellbrychan@llyfrau.cymru
Rhyngrwyd / Internet llyfrau.cymru gwales.com ffolio.cymru

Prif Weithredwr/Chief Executive: Helgard Krause

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Arweinydd Maes: Dylunio |
| **Adran:** | Adran Cyfathrebu, Marchnata a Dylunio |
| **Lleoliad:** | Castell Brychan |
| **Band Cyflog:** | Graddfa 7 (Pwynt 33–36) |
| **Cyflog:** | £39,493–£42,503 |
| **Cytundeb:** | Parhaol |
| **Dyddiad cychwyn:** | Tachwedd 2023 |
| **Oriau gwaith:** | 37 awr yr wythnos |
| **Nifer o ddiwrnodau o wyliau:** | 23 diwrnod y flwyddyn a 5 diwrnod braint ac 8 Gŵyl Banc |
| **Yn adrodd i:** | Pennaeth Adran Cyfathrebu, Marchnata a Dylunio |
| **Pwrpas cyffredinol y swydd:** | Mae'r swydd newydd hon yn hanfodol i weithredu blaenoriaethau strategol y Cyngor Llyfrau yn ein Cynllun Strategol 2022–27. Bydd y swydd yn hanfodol i gynnal a datblygu safonau dylunio yng nghyd-destun y sector cyhoeddi yng Nghymru ac i hyrwyddo'r proffesiwn i ddarpar ddylunwyr.<br>➢ Darparu arweiniad proffesiynol yn y maes dylunio i'r diwydiant ac i'r Cyngor Llyfrau, er mwyn datblygu sgiliau yn y sector a meithrin sgiliau a thalent at y dyfodol; a chynnal a gwella safonau diwyg a chynhyrchu llyfrau.<br>➢ Sicrhau gwasanaeth dylunio i'r cyhoeddwyr trwy arwain gwaith y Tîm Dylunio<br>➢ Sicrhau gwasanaeth dylunio mewnol i'r Cyngor Llyfrau, trwy arwain gwaith y Tîm Dylunio, yn cynnwys gwarchod a datblygu'r brand. |

## Y CYNGOR LLYFRAU

Elusen genedlaethol sy'n cefnogi'r diwydiant cyhoeddi ac yn datblygu darllen yng Nghymru yw'r Cyngor Llyfrau. Rydym yn hyrwyddo llythrennedd a darllen er pleser drwy ystod o ymgyrchoedd, gweithgareddau a digwyddiadau ar hyd a lled Cymru, gan weithio'n aml mewn partneriaeth ag ysgolion, llyfrgelloedd a sefydliadau llenyddol eraill. Sefydlwyd y Cyngor yn Aberystwyth yn 1961 ac rydym yn gweithio gyda chyhoeddwyr i feithrin talent a chynnwys newydd yn Gymraeg a Saesneg, yn ogystal â chynnig gwasanaethau arbenigol megis golygu, dylunio, marchnata a dosbarthu. Rydym hefyd yn gweinyddu grantiau i gyhoeddwyr a llyfrwerthwyr annibynnol. Daw ein cyllid yn rhannol

gan Lywodraeth Cymru drwy Gymru Greadigol, ac yn rhannol o weithgareddau masnachol a gwasanaeth cyfanwerthu llyfrau ein Canolfan Ddosbarthu.

Mae'r Cyngor yn darparu cynllun pensiwn y bydd modd i'r sawl a benodir gyfrannu ato. Mae'r Cyngor Llyfrau yn aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed, sy'n Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Gweithredir system oriau gwaith hyblyg ar gyfer y swydd hon.

## YR ADRAN

Mae'r Adran hon yn ei ffurf bresennol yn un newydd ac yn ganolog i'r byd cyhoeddi yng Nghymru. Yr hyn sy'n gyrru gwaith yr Adran yw'r awydd i weld cyhoeddwyr a'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru – yn Gymraeg ac yn Saesneg – yn datblygu a ffynnu, a bod y Cyngor yn chwarae ei ran mor effeithiol ac effeithlon â phosibl i gefnogi a hyrwyddo'r datblygiad hwnnw.

Mae'r Adran yn gyfrifol am sicrhau bod brand a neges y Cyngor yn glir ac yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol ar bob cyfle posibl. Bydd yr Adran hefyd, mewn cydweithrediad ag adrannau eraill y Cyngor, yn sicrhau bod deunydd hyrwyddo a marchnata cyfoes ac effeithiol ar gael i gefnogi llyfrwerthwyr ac ymgyrchoedd hyrwyddo darllen. Yn ogystal â hyn, mae'n chwarae rhan allweddol wrth sicrhau cynnal a gwella safon gweledol y llyfrau a gyhoeddir gyda nawdd y Cyngor. Sefydlir Is-bwyllgor o'r Bwrdd i gynghori ar y materion hyn.

Mae'r Adran yn ganolog i weithrediad y Cyngor a thrwy hynny i'r byd llyfrau yng Nghymru; mae swyddogion yr Adran mewn cysylltiad cyson ag adrannau eraill y Cyngor yn trafod cynlluniau ac yn annog a chynghori. I unrhyw un sydd â diddordeb gwirioneddol mewn gweld y byd llyfrau Cymreig yn fywiog a ffyniannus, mae yma gyfle i wneud cyfraniad o werth.

## PRIF DDYLETSWYDDAU'R SWYDD

1. Arwain y maes dylunio yng nghyd-destun y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru, gan gynnig arweiniad strategol a chreadigol i gefnogi amcanion y Cynllun Strategol.
2. Adnabod a datblygu cyfleoedd i'r proffesiwn yng Nghymru gan gynnig arweiniad penodol lle bo angen, i ddatblygu sgiliau a talent, a chefnogi rhagoriaeth ac arloesedd o fewn y sector.
3. Cadw gorolwg o waith y dylunwyr / y gwaith dylunio a noddir gan y Cyngor Llyfrau a rhoi adborth / gwerthusiad o'r gwaith lle bo angen.
4. Arwain ar yr elfennau datblygu a hyfforddi yng ngwaith yr adran yng nghyd-destun cynnal a gwella safonau dylunio llyfrau a chylchgronau, a chefnogi'r tîm i gadw eu sgiliau'n gyfredol yn y maes.
5. Cydweithio gyda'r Arweinydd Maes Golygyddol i greu cyfleoedd ar gyfer swyddogaethau golygyddol a dylunio i gefnogi'r sector mewn modd cyd-gysylltiedig
6. Bod yn brif bwynt cyswllt y Cyngor i ddarparu gwasanaethau dylunio i'r cyhoeddwyr yng Nghymru, gan arwain gwaith y Tîm Dylunio a threfnu unigolion cymwys i gyflawni'r gwaith oddi mewn neu o'r tu allan i'r Adran.
7. Rheoli a darparu gwasanaeth dylunio creadigol i adrannau mewnol y Cyngor, gan arwain gwaith y Tîm Dylunio a threfnu unigolion cymwys i gyflawni'r gwaith oddi mewn neu o'r tu allan i'r Adran.
8. Gwarchod brandiau'r Cyngor Llyfrau a rhoi cyngor ar ddefnydd y brand yn ôl ein canllawiau.
9. Creu, comisiynu a chynnal llyfrgell o ddelweddau o safon uchel at ddefnydd pob agwedd ar waith cyfathrebu a marchnata y Cyngor.
10. Darparu gwybodaeth berthnasol i Weinyddydd yr Adran Datblygu Cyhoeddi er mwyn prosesu anfonebau'n brydlon.

## GWYBODAETH A SGILIAU AR GYFER Y SWYDD

- Profiad creadigol gan ddeall anghenion dylunio ar gyfer y sector
- Sgiliau dylunio o'r radd flaenaf a/neu profiad cynhyrchu yng nghyd-destun cyhoeddi
- Sgiliau rhyngbersonol cryf a'r gallu i gyfathrebu'n glir ac yn adeiladol gyda chyhoeddwyr a dylunwyr.
- Gwybodaeth eang a diddordeb byw mewn llyfrau Cymraeg o bob math
- Sgiliau technolegol a gwybodaeth berthnasol i'r swydd
- Y gallu i weithio dan bwysau ac i amserlen dynn.

## IAITH GWEITHIO

Bydd bron y cyfan o'r gwaith a'r cyfathrebu sydd ynghlwm â'r swydd hon yn cael ei wneud drwy gyfrwng y Gymraeg; rhwng hynny a'r angen i roi adborth i'r gweisg ynglŷn â chyhoeddiadau Cymraeg, a gwybodaeth a diddordeb byw mewn llyfrau a chylchgronau Cymraeg, disgwylir i ddeilydd y swydd fod yn hyderus wrth ddarllen a siarad Cymraeg. Mae cefnogaeth ar gael i helpu datblygu sgiliau Cymraeg ysgrifenedig.

## CYSYLLTIADAU A CHYFATHREBU

| **Mewnol** | **Natur y cyswllt** |
|---|---|
| Swyddog/ion Dylunio | Rheoli llinell a chyfathrebu cyson ynglŷn â dosraniad gwaith. |
| Pennaeth yr Adran Cyfathrebu, Marchnata a Dylunio | Datblygu a gweithredu cynlluniau'r Adran. |
| Arweinydd Maes Golygyddol | Cydweithio'n agos i ddatblygu'r maes cyhoeddi trwy roi arweiniad strategol a chynnig arbenigedd neu adborth ar y cyd. |
| Gweinyddydd yr Adran Datblygu Cyhoeddi | Darparu'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer anfonebu'r gwaith allanol a ddarparwyd i'r gweisg. |
| Gweddill staff y Cyngor | Cydweithio i ddarparu gwasanaethau dylunio mewnol i'r Cyngor Llyfrau. |
| Tîm Rheoli'r Cyngor Llyfrau / Bwrdd yr Ymddiriedolwyr | Adrodd i'r Bwrdd a'r Tîm Rheoli fel bo angen. |

| **Allanol** | **Natur y cyswllt** |
|---|---|
| Cyhoeddwyr | Cysylltu, trafod a chynnal perthynas broffesiynol adeiladol gyda'r cyhoeddwyr ac ymateb i'w ceisiadau. Trafod materion gweithredol, e.e. oriau, amserlen ac anfonebau ayb.<br>Adnabod unrhyw wendidau lle byddai hyfforddiant yn fuddiol. |
| Aelodau'r Is-bwyllgorau priodol | Adrodd i'r Is-bwyllgorau Datblygu Cyhoeddi Cymraeg a Saesneg a rhoi adborth adeiladol fydd yn rhan o benderfyniadau ynghylch grantiau.<br>Adrodd i'r Is-bwyllgor Cyfathrebu Marchnata a Dylunio. |

## CYFRIFOLDEBAU

Am bobl: Swyddog/ion Dylunio

Am gyllideb: Incwm yr adran / hyfforddiant datblygu'r sector

Am offer neu stoc: Na

## GWNEUD PENDERFYNIADAU / DATRYS PROBLEMAU / YMREOLAETH

Bydd disgwyl i ddeilydd y swydd benderfynu ar ffyrdd o flaenoriaethu gwaith a datrys anawsterau o ddydd i ddydd gan ymateb i newidiadau annisgwyl mewn modd dychmygus a hyblyg.

Bydd disgwyl i ddeilydd y swydd fod yn rhagweithiol yn y gwaith ac yn barod i ymyrryd er mwyn cynnig arweiniad strategol i'r cyhoeddwyr, ac i chwilio am ffyrdd o ddatblygu'r maes drwy ddenu talent a chynnig hyfforddiant neu fentora.

## CEISIADAU

**Ar gyfer gwneud cais, anfonwch CV a llythyr yn egluro pam eich bod yn addas ar gyfer y swydd, gan gynnwys 2 esiampl o waith celf neu ddeunydd creadigol yr ydych chi wedi'i gynhyrchu**. Dylai eich CV nodi enwau a chyfeiriadau dau berson y gellir cysylltu â hwy am dystiolaeth bellach. Os yw'r ymgeisydd mewn swydd ar hyn o bryd, dylai'r cyflogwr presennol fod yn un o'r canolwyr.

Ceisiadau i'w cyflwyno erbyn **canol dydd, dydd Llun, 16 Hydref**, a dylid eu hanfon at:

Menai Ll Williams, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2JB. Ffôn: (01970) 629541, neu'n electronig at menai.williams@llyfrau.cymru

**Hydref 2023**